HOPE
Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu

age connects wales.

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

# 2022-2023

## Gwirfoddolwyr

**183**
o wirfoddolwyr yn weithgar dros y flwyddyn

**504**
o ymholiadau eleni

**2,867**
o oriau gwirfoddol

**100%**
yn teimlo eu bod yn cael cymorth rhagorol neu dda

## Pobl a gefnogir

**2,694**
o gysylltiadau wedi'u gwneud

**470**
o atgyfeiriadau wedi derbyn

**38**
o bobl wedi eu cefnogi i ddod o hyd i wasanaethau mwy priodol

**705**
o faterion wedi eu delio

**100%**
o bobl wedi eu hymateb i o fewn 7 diwrnod

**97%**
yn teimlo bod eu lleisiau wedi'u clywed

**83%** o bobl yn teimlo bod eu problem(au) wedi cael eu datrys yn gadarnhaol
**11%** yn ansicr

## Llysgenhadon

**9**
wedi'u hyfforddi ac yn weithgar

## Hyfforddiant

**129**
o sesiynau

**1,018**
o bobl yn mynychu ein digwyddiadau datblygu / hyfforddi a gweminarau

**99%** yn barnu'r hyfforddiant yn dda neu'n rhagorol

## Rhwydweithiau

**42**
o gyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth wedi'u cefnogi

## Ymgysylltu

**260**
o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru



## Ansawdd

Investing in Volunteers / Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Cyflawnwyd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV)

# Astudiaethau achos

**Roedd Mrs LL wedi prynu darn arian.** Anfonodd y cwmni ddarn arian ychwanegol ati gan ddweud y gallai Mrs LL ei ddychwelyd yn rhad ac am ddim os nad oedd hi eisiau cadw'r darn arian. Ar ôl dychwelyd y darn arian, dechreuodd Mrs LL dderbyn hyd at dair galwad yr wythnos gan y cwmni yn mynnu ei bod hi'n dychwelyd y darn arian neu byddai angen iddi dalu mwy na £600. Roedd Mrs LL yn teimlo nad oedd y cwmni'n gwrando arni ac roedden nhw'n mynnu bod yn rhaid ei bod hi wedi colli'r darn arian. Roedd hi'n teimlo ei bod hi'n cael ei haflonyddu gan y cwmni, ei bod hi dan straen, a bod y cwmni yn gwahaniaethu yn ei herbyn oherwydd ei hoedran. Roedd Mrs LL hefyd yn poeni bod camau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn ei herbyn.

Cefnogodd ein Gwirfoddolwr Eiriolaeth Annibynnol HOPE Mrs LL i gael mynediad at dderbynebau gan Swyddfa'r Post fel tystiolaeth ei bod hi wedi postio'r geiniog. Cafodd Mrs LL gefnogaeth i ysgrifennu llythyr at y cwmni yn esbonio'r sefyllfa a'r camau yr oedd hi wedi eu cymryd. Cytunodd y cwmni mai dyma oedd diwedd y mater a gwnaethant ymddiheuro i Mrs LL. Roedd hi'n teimlo'n hapusach ac yn sicr na fyddai'n derbyn mwy o alwadau ffôn yn mynnu arian.

**Roedd Mrs OO yn byw mewn cartref rhent oedd wedi gorlifo.** Roedd hi eisiau symud i dai cymdeithasol ond doedd y cyngor ddim yn ymateb. Roedd hi'n teimlo'n hynod bryderus am y sefyllfa, yn enwedig pan fyddai tywydd gwlyb. Roedd hyd yn oed siarad am y sefyllfa yn achosi iddi ofidio. Fe wnaeth ein Gwirfoddolwr Eiriolaeth Annibynnol HOPE gefnogi Mrs OO i hunan-eirioli. Cysylltodd â'r cyngor eto ac fe wnaethon nhw flaenoriaethu ei hachos. Roedd Mrs OO yn teimlo'n llawer mwy hyderus am ei gallu i sicrhau bod pobl yn ei chlywed hi ac i wneud i bethau ddigwydd, gan wybod y gallai gysylltu â HOPE eto pe bai angen cymorth ychwanegol arni.

**Roedd Mr TT wedi derbyn bil trydan am dros £3000.** Roedd wedi hunan-eirioli a lleihau'r bil yn sylweddol, ond roedd yn dal i deimlo bod y bil yn rhy uchel. Cefnogodd ein Gwirfoddolwr Eiriolaeth Annibynnol HOPE Mr TT i ddarparu tystiolaeth o filiau, arian a dalwyd a'r defnydd o ynni i'r cyflenwr a chytunwyd i ad-daliad ychwanegol. Roedd Mr TT wrth ei fodd gyda'r canlyniad ac roedd yn hapus ei fod o'r diwedd wedi llwyddo i dderbyn cefnogaeth i gael biliau mwy fforddiadwy. Roedd yn teimlo rhyddhad, roedd yn hapus, roedd wedi ymlacio ac roedd yn ddiolchgar .

**Roedd gan Mrs UU dabled electronig ond doedd hi ddim yn gwybod sut i'w ddefnyddio.** Roedd hi'n teimlo'n ynysig ac roedd popeth wedi mynd yn ormod iddi. Gwnaeth ein Heiriolwr Gwirfoddol Annibynnol o dîm HOPE helpu Mrs UU i ystyried gwahanol opsiynau. Roedd Mrs UU eisoes wedi cael cefnogaeth dda gan ei heglwys leol ac fe wnaeth yr eiriolwr ei helpu i ddysgu sut y gallai ofyn iddyn nhw am help. Roedd Mrs UU yn teimlo'n hyderus bod ganddi nifer o opsiynau i ddarparu cymorth .

**Roedd angen help ar Mrs VV i sicrhau bod y cyngor yn trwsio difrod a achoswyd gan leithder y tu mewn i'w tŷ cyngor.** Roedd ei phroblemau iechyd wedi gwaethygu oherwydd y lleithder yn ei hystafell fyw. Roedd cyflwr y wal yn ei hystafell fyw hefyd yn achosi cywilydd ar Mrs VV, yn enwedig pan oedd ganddi ymwelwyr. Roedd y cyngor wedi ymweld â'r tŷ nifer o weithiau yn ystod sawl mis, ond nid oedd y cyngor yn medru cytuno beth oedd yn achosi'r broblem. Gwnaeth y cyngor addo cynnal galwadau dros y ffôn ond ni chafodd Mrs VV.

Ceisiodd ein Heiriolwr Gwirfoddol Annibynnol o dîm HOPE gysylltu â'r cyngor trwy amryw o ddulliau, ond roedd hi'n glir pam roedd Mrs VV wedi cael problemau wrth geisio cysylltu â'r cyngor. Fe wnaeth yr eiriolwr gysylltu â chynghorydd lleol ar ran Mrs VV. Fe wnaeth y cynghorydd ymateb yn gyflym iawn ac o ganlyniad mae'r cytuno wedi cytuno i gychwyn ar y gwaith ar ddyddiad penodol. Roedd Mrs VV yn teimlo rhyddhad mawr nad oedd angen iddi boeni mwyach am y straen o geisio cysylltu â'r cyngor. Roedd hi'n falch ac yn ddiolchgar iawn.

**Roedd angen i Mr WW wneud cais ar gyfer Bathodyn Glas ar ôl iddo gael ei wrthod yn flaenorol.** Roedd gan Mr WW drafferthion anadlu wedi blynyddoedd o weithio fel mwyngloddiwr, ac roedd cerdded unrhyw bellter yn frwydr go iawn iddo. Roedd hyd yn oed cyrraedd y Swyddfa Bost er mwyn gwneud cais yn anodd. Fe wnaeth ein Heiriolwr Gwirfoddol Annibynnol o dîm HOPE helpu Mr WW i ddod o hyd i wybodaeth gan ei feddyg teulu er mwyn cefnogi ei gais a'i helpu i gwblhau'r cais ar-lein. Roedd Mr WW yn falch iawn a bydd y Bathodyn Glas yn gwneud gwahaniaeth mawr iddo.

**Roedd Ms AAA yn cael ei gyrru allan o'i thŷ gan ei landlord preifat.** Dyma'r eildro roedd hyn wedi digwydd iddi mewn llety rhent preifat. Roedd Ms AAA eisiau symud i dŷ cymdeithasol ac roedd yn teimlo'n bryderus oherwydd y peryg o fod yn ddigartref yn y dyfodol agos.

Gwnaeth ein Heiriolwr Gwirfoddol Annibynnol o dîm HOPE gefnogi Ms AAA wrth gysylltu â Shelter i gael cyngor ac i gwblhau ffurflenni er mwyn ymuno â'r rhestr aros ar gyfer tai'r cyngor. Fe wnaeth yr eiriolwr hefyd gefnogi Ms AAA i gysylltu â'r tîm cymorth symudol yn yr awdurdod lleol, a wnaeth bennu swyddog digartrefedd. Roedd y swyddog digartrefedd yn gallu siarad â'r landlord, a gytunodd i fod yn drugarog gan ei bod hi wrthi'n chwilio am dŷ newydd. Roedd hi'n rhyddhad i Ms AAA ei bod hi'n cael cefnogaeth.

Age Cymru, Llawr Isaf,
Tŷ Mariners, Llys Trident,
Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555
E-bost: enquiries@agecymru.org.uk
**www.agecymru.org.uk**

**Dilynwch ni ar:**

facebook.com/agecymru

twitter.com/agecymru

**Roedd darparwr ynni Mr BBB wedi ymddiddymu.** Rhai misoedd yn ddiweddarach roedd wedi derbyn galw terfynol am swm mawr a oedd ar ei gyfrif yn ôl y cwmni. Roedd y llythyr yn dweud bod y ddyled yn cael ei throsglwyddo i asiantaeth casglu dyledion. Talodd Mr BBB y swm am ei fod yn poeni am yr hyn fyddai'n digwydd pe na bai'n gwneud hynny, ond roedd yn ansicr.

Cysylltodd ein Heiriolwr Gwirfoddol Annibynnol o dîm HOPE ag Ofgem i ddarganfod pa weinyddwr oedd wedi goruchwylio'r broses o ddiddymu'r cwmni. Gweithiodd yr eiriolwr gyda'r gweinyddwr i gael dadansoddiad llawn o'r holl daliadau yr oedd Mr BBB wedi'u gwneud i'r cwmni ynni ac roedden nhw'n gallu sefydlu nad oedd Mr BBB yn ddyledus i'r cwmni. Cafodd Mr BBB ei arian i gyd nôl. Roedd yn rhyddhad i Mr BBB i dderbyn ei arian yn ôl ac roedd wrth ei fodd gyda'r cymorth a ddarparwyd gan ei eiriolwr. Er ei fod yn byw ar ei ben ei hun, dywedodd nad oedd yn teimlo fel ei fod ar ei ben ei hun.

**Roedd angen help ar Mr DDD gyda sawl mater oherwydd yr Argyfwng Costau Byw**. Roedd yn bryderus iawn am ei incwm ac yn poeni p'unai oedd yn ddyledus i unrhyw un. Roedd Mr DDD yn credu ei fod yn ddyledus am ofal roedd wedi derbyn, ond nid oedd yn gwybod faint o arian oedd yn ddyledus. Roedd ganddo ofn hefyd y gallai fod yn ddyledus i'w gwmni ynni am symiau mawr o arian.

Fe wnaeth ein Heiriolwr Gwirfoddol Annibynnol o dîm HOPE ddarganfod bod Mr DDD ond yn ddyledus am swm bach am y gofal roedd wedi ei dderbyn. Roedd Mr DDD yn teimlo bod hyn yn swm y gallai ei fforddio, felly roedd derbyn yr wybodaeth hon yn gysur mawr iddo. Fe wnaeth yr eiriolwr hefyd ddarganfod nad oedd yn ddyledus am unrhyw arian i'w gwmni ynni, ac roedd sawl can punt ar ei gyfrif. Roedd Mr DDD yn hapus iawn i glywed hyn, oherwydd byddai hyn yn ei helpu i dalu biliau yn y dyfodol ar adeg o'r flwyddyn pan fyddai'n defnyddio mwy o ynni oherwydd y tywydd oer. Roedd Mr DDD yn teimlo rhyddhad mawr nad oedd y pryderon bellach ar ei feddwl.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436,
cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr
Gweler6837284. uchod am ein swyddfa gofrestredig. ©Age Cymru 2023

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government